

Arolygiad Meddygfa Deulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

**Practis Meddygol Llanfair-ym-
Muallt, Maesycoed, Parc
Glandwr, Llanfair-ym-Muallt
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Dyddiad yr Arolygiad:

06/02/2017

Dyddiad Cyhoeddi: 08/05/2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
5.	Y camau nesaf	19
6.	Methodoleg	20
	Atodiad A.....	22
	Atodiad B.....	26

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt ym Maesycoed, Parc Glandwr, Llanfair-ym-Muallt ar 6 Chwefror 2017. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid sy'n feddyg teulu ac yn rheolwr practis a chynrychiolwyr o Gyngor Iechyd Cymuned Powys.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Cynhelir arolygiadau o Feddygfeydd Teulu gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt yn darparu gwasanaethau i tua 7,800 o gleifion yn ardal Llanfair-ym-Muallt, Llanwrtyd, Pontnewydd ar Wy, Bachawy, Hundred House, Cilmeri a Bochrwyd ar hyn o bryd. Mae'n gwasanaethu ardal o ryw 500 milltir sgwâr yng nghefn gwlad canolbarth Cymru. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Powys.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys chwe meddyg teulu partner, rheolwr practis, rheolwr derbynfa, dau weinyddwr meddygol, ysgrifennydd meddygol, 7 derbynydd, 3 nyrs practis a 2 gynorthwydd gofal iechyd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinigau a gynhelir gan y Nyrsys Practis a'r Meddygon
- Prawf Ceg y Groth
- Clinigau babanod (monitro iechyd a datblygiad, brechiadau a chyngor cyffredinol)
- Cyngor teithio tramor / brechiadau
- Mân-lawdriniaeth
- Profi a rheoli gwrth-geulo
- Rheoli clefydau cronig (gan gynnwys asthma a diabetes)
- Clinigau anabledau dysgu ac iechyd meddwl

Daeth dau aelod lleol o'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) gyda ni ar yr arolygiad hwn.

3. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt yn bodloni'r gofynion gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Canfuom dystiolaeth yn gyffredinol fod Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae gan y practis ddigonedd o adnoddau ac mae'n darparu safon uchel o wasanaeth i bobl Llanfair-ym-Muallt a'r cyffiniau. Caiff darpariaeth y gwasanaeth ei rheoli a'i gwerthuso'n effeithiol i sicrhau y darperir y gwasanaeth cywir mewn ffordd brydlon a phriodol.

Canfuom fod y meddygon teulu partner a rheolwr y practis yn sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn effeithiol, a'u bod yn cael eu cynorthwyo'n dda gan dîm staff ymroddedig. Roedd gan yr holl gleifion a oedd wedi cofrestru yn y practis feddyg penodedig a neilltuwyd iddynt, sy'n hybu parhad gofal ac yn galluogi ffurfio dealltwriaeth drylwyr o ofynion iechyd a gofal y cleifion.

Dyma'r hyn y canfuom fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad bod rhyngweithio'r staff â chleifion yn gwrtais ac yn dangos urddas a charedigrwydd.
- Roedd meddyg penodedig yn cael ei neilltuo i bob claf wrth gofrestru gyda'r practis.
- Mae'r cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth sy'n effeithiol ac yn cynnig adnoddau digonol
- Roedd staff yn y practis yn gweithio'n dda fel tîm ac roedd y rhyngweithio rhwng staff yn dangos parch ac urddas.
- Roedd y cleifion y siaradom â nhw yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir yn y practis.

Dyma'r hyn yr argymhellwyd gennym y gallai'r practis ei wella:

- Defnydd gwell o'r Gymraeg
- Sicrhau bod yr holl oergelloedd yn cael eu cadw ar glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio neu eu goruchwyllo
- Newid / ailosod teils o gwmpas sinc sydd wedi cwmpo

- Sicrhau bod sebon / eli golchi dwylo ar gael wrth bob sinc golchi dwylo
- Datblygu a rhannu system o ddarparu adborth i gleifion am ddarpariaeth y gwasanaeth a llywodraethiad y practis.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwelwyd fod y staff clinigol yn darparu parhad gofal a thriniaeth gwych i'r cleifion, oherwydd bod gan yr holl feddygon sy'n gweithio yn y practis restrau cleifion neilltuedig. Gwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad bod yr holl staff yn cynorthwyo ac yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion mewn ffordd ddigynnwrf, gydag urddas a chwarteisi.

Roedd dau aelod lleol o Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Powys yn bresennol yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Eu swyddogaeth oedd gofyn am safbwyntiau cleifion am wasanaethau a ddarperir gan Bractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt trwy sgysiau wyneb i wyneb â chleifion a gofalwyr. Roedd y CIC hefyd wedi derbyn 87 o ymatebion wedi'u cwblhau trwy eu holiaduron cyn yr arolygiad.

Yn gyffredinol, roedd yr holl adborth a dderbyniwyd oddi wrth gleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd rhai cleifion fod rhaid iddynt aros cryn amser am apwyntiad gyda'u meddyg penodedig weithiau, er ei bod yn bosibl gweld meddyg dyletswydd, ar ddiwrnod y cais fel rheol, pe bai'r angen yn codi.

Mae'r CIC wedi llunio adroddiad sy'n cynnig dadansoddiad o'r wybodaeth y maent wedi ei chasglu. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Atodiad B.

Cadw'n iach

Safon 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Roedd cryn dipyn o wybodaeth ar gael i gleifion i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd taflenni a phosteri ar gael yn barod yn yr ystafell aros. Roedd y wybodaeth ar y sgrin deledu yn eglur, yn gryno ac yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth am wahanol faterion meddygol / iechyd. Roedd taflen y practis ar gael yn rhwydd i gleifion, perthnasau ac aelodau'r cyhoedd, ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau cymorth a sefydliadau a oedd ar gael i gynnig help a chefnogaeth.

Roedd gwefan y practis yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol iawn am y gwasanaethau a ddarperir. Roedd llawer iawn o wybodaeth ac adnoddau ar gael ar y wefan a oedd yn cynnwys:

- Ymgynghoriad ar-lein – mae'r rhan hon o'r wefan yn galluogi cleifion i ofyn cwestiynau penodol i'w meddyg penodedig. Gellid gwneud ceisiadau am wybodaeth am faterion fel symptomau, cyngor am gyflyrau penodol neu gymorth gweinyddol ar-lein.
- Roedd y wefan yn cynnwys llawer iawn o gyflyrau meddygol, symptomau a gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd a llesiant.
- Trefnu apwyntiad ac archebu presgripsiynau ailadroddus ar-lein.

Mae gan y practis agwedd gadarnhaol at waith a datblygiad clwstwr meddygon teulu¹ yn ardal y canolbarth, fel ffordd o werthuso a hyrwyddo gwasanaethau ar gyfer cleifion yn y dyfodol.

Gofal gydag urddas

Safon 4.1 Gofal gydag urddas

Rhaid i bobl gael gwybodaeth iawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Ar y cyfan, gwelsom yr holl staff yn cynorthwyo cleifion gydag urddas ac mewn ffordd ddigynnwrf. Roedd yr holl ymgynghoriadau yn cael eu cynnal y tu ôl i ddrysau caeedig gan sicrhau bod urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal a'u sicrhau. Roedd y staff yn siarad yn dawel â chleifion yn y dderbynfa. Roedd pob sgwrs ffôn yn cael ei chynnal mewn ystafelloedd y tu ôl ac i'r ochr i'r brif dderbynfa.

Roedd system mewngofnodi electronig hefyd ar waith yn y practis. Cymraeg a Saesneg oedd yr ieithoedd a ddefnyddiwyd ar y system ar y pryd, er y gellid lanlwytho rhagor o ieithoedd i'r system pe bai'r angen yn codi yn y dyfodol.

¹ Grŵp o Feddygon Teulu a Phractisau Lleol a bennir gan Fwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru unigol yw 'Clwstwr' meddygfeydd teulu. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal er budd cleifion.

Gwelsom wybodaeth eglur yn yr ystafell aros ac mewn ystafelloedd ymgynghori am hebryngwyr a'u defnydd yn y practis. Nyrs, cynorthwydd gofal iechyd neu aelodau penodedig o dîm y dderbynfa fyddai'r hebryngwr fel rheol. Gallai cleifion neu glinigwyr wneud cais am hebryngwr yn ystod ymgynghoriadau. Nodwyd, yn un cofnod claf a welwyd, bod y meddyg wedi cynnig hebryngwr hefyd. Roedd cleifion yn cael eu galw o'r ystafell aros drwy'r system deledu electronig. Gwelwyd trwy gydol yr arolygiad nad oedd cleifion yn aros yn hir o gwbl ar ôl mewngofnodi i weld y meddyg / nyrs practis.

Amlygwyd bod yr holl gydsyniadau i fân lawdriniaeth yn cael eu sganio a'u rhoi yng nghofnodion meddygol y claf.

Gofal amserol

Safon 5.1 Mynediad amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.

Canfuom fod mynediad at wasanaethau gofal yn dda. Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn y practis neu dros y ffôn. Amlygodd y cleifion eu bod weithiau'n cael trafferth wrth gysylltu â'r practis yn ystod cyfnodau prysur. Un opsiwn arall i gleifion, a oedd yn cael ei hyrwyddo gan y practis, oedd trefnu apwyntiadau trwy adnodd [Fy Iechyd Ar-lein](#)². Roedd y mater hwn yn peri pryder i rai cleifion a oedd yn teimlo bod ganddynt sgiliau TG cyfyngedig neu ddarpariaethau band eang cyfyngedig yn eu hardal.

Caiff cleifion eu hatgyfeirio i wahanol ysbytai aciwt yn dibynnu ar eu hangen clinigol. Y prif ysbytai a ddefnyddiwyd oedd Neville Hall, Henffordd a Cheltenham ac roedd atgyfeiriad i un o'r ysbytai hyn yn dibynnu ar ddymuniad y claf a'r arbenigedd mae ei hangen. Roedd yr holl ysbytai hyn yn bellter sylweddol i ffwrdd ac roedd angen rhoi ystyriaeth arbennig i weithio a chydweithredu traws-ffiniol.

Atgyfeiriwyd cleifion y practis trwy [Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru](#) ar ôl cynnal yr ymgynghoriad â'r meddyg teulu. Roedd hyn yn cael ei gwblhau gan yr ysgrifenyddion meddygol. Caiff atgyfeiriadau canser brys a phythefnos at ysbytai yn Lloegr eu gwneud trwy ffacs a chaiff y gweddill eu gwneud ar Borth

² <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp>

Cyfathrebu Clinigol Cymru i'r tîm comisiynu ym Mronllys, sy'n argraffu ac yn trefnu'r atgyfeiriadau gyda'r tîm yn Lloegr.

Mae'r practis ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener 08:00 tan 18:30. Mae'r meddygon yn gweld eu cleifion penodedig yn y bore a'r prynhawn oni bai mai nhw yw'r meddyg dyletswydd. Ceir meddyg dyletswydd yn y prynhawn yn unig. Neilltuir amser ar-alwad i feddygon yn ystod sesiwn y bore, yn ogystal â'u meddygfa.

Mae cleifion ag apwyntiadau ar y diwrnod brys yn mynd trwy broses brysbennu ysgafn gyda'r derbynnydd a threfnir apwyntiad iddynt yn y sesiwn briodol gyda'r meddyg dyletswydd neu'r nyrs practis. Mae un nyrs practis yn gweithio yn y clinig mân afiechydon.

Mae'r nyrsys practis yn cynnal clinig mân afiechydon ar dri bore yr wythnos (dydd Mawrth, dydd Merched a dydd Gwener). Mae hwn yn opsiwn arall i gleifion. Roedd un o'r nyrsys practis yn cyflawni cwrs rhagnodi nyrsys a fydd yn gwella'r gwasanaeth ymhellach yn y dyfodol.

Gofal unigol

Safon 6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.

Roedd mynediad at yr adeilad yn dda. Roedd cloch alw ar gael y tu allan i'r adeilad i bobl ag anawsterau symud. Argymhellir bod angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r gloch sydd wedi'i lleoli y tu allan, gan ei bod yn ddomestig ei natur a gallai fod yn anodd i bobl ag anawsterau echddygol manwl ei defnyddio. Roedd rhan is gan ddesg y dderbynfa er mwyn i bobl mewn cadair olwyn allu cyfathrebu'n effeithiol â'r derbynnyddion. Roedd digonedd o le yn yr ystafell aros i bobl â chymhorthion symud. Roedd man neilltuedig i blant aros lle'r oedd rhai teganau a llyfrau ar gael.

Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli ar y llawr daear a oedd yn caniatáu mynediad rhwydd. Roedd y toiledau i gleifion wedi'u lleoli yn agos at yr ystafell aros. Roedd yn ymddangos bod un o'r toiledau wedi treulio ac fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis bod y toiled hwn wedi cael ei nodi ac y disgwyliwyd iddo gael ei uwchraddio a'i ailwampio.

Y tu allan, roedd digonedd o leoedd parcio ar gael ac roedd tri lle parcio wedi'u neilltuo ar gyfer pobl anabl yn agos at y brif fynedfa. Roedd gan y practis system dolen sain ar gael i bobl â chymhorthion clywed, er nad oedd y

derbynnydd yn siŵr sut i'w defnyddio. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r broses gywir i'w dilyn ar gyfer ei defnyddio.

Safon 6.2 Hawliau pobl

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Nodwyd bod tri o'r meddygon yn siarad Cymraeg ac yn gallu darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os oedd yn well gan y claf. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a'r arwyddion Cymraeg drwy'r practis, a phrin hefyd oedd y wybodaeth yn hysbysu'r cleifion bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Fe'n hysbyswyd bod y practis yn derbyn ceisiadau prin gan gleifion i ymgysylltu â'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a bod yr iaith yn derbyn yr un lefel o sylw â'r Saesneg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn yr un lefel o sylw â'r Saesneg.

Safon 6.3 Gwranddo a dysgu o adborth

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwynion gyfredol ar waith. Roedd taflen gwynion ar gael yn rhydd yn yr ystafell aros ac roedd taflen y practis hefyd yn nodi sut i wneud cwyn os oedd angen. Roedd gwybodaeth ar gael yn yr ystafell aros am CIC Powys, sef y sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym Mhowys.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith sy'n galluogi pobl i godi pryder / gwneud cwyn mewn ffordd sy'n amddiffyn yr unigolyn rhag dioddef unrhyw effeithiau niweidiol cyn belled ag y dilynwyd y canllawiau yn y polisi. Hefyd, gellid codi pryderon a gwneud cwynion trwy wefan y practis. Roedd y

wefan hefyd yn nodi bod manylion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi eu cynnwys pe na bai'r gŵyn yn cael ei datrys yn foddhaol.

Edrychwyd ar gofnodion cwynion yn rhan o'r arolygiad ac roedd y rhain wedi eu cynnal a'u gweithredu mewn ffordd gynhwysfawr a chynhwysol. Roedd cwynion a phryderon yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd practis ac yn cael eu cofnodi'n briodol. Roedd adolygiad blynyddol o gwynion yn galluogi unrhyw themâu i gael eu nodi a'u gwerthuso.

Hefyd, roedd gan y practis flwch sylwadau / awgrymiadau ar gael ger y fynedfa, lle gallai pobl godi pryder pe bai angen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y practis yn cyhoeddi unrhyw ganlyniadau o adborth / sylwadau cleifion. Fe'n hysbyswyd bod yr arolwg holiadur diwethaf wedi cael ei gynnal tua 3 blynedd ynghynt. Nodwyd bod yr holl feddygon wedi cael eu hailddilysu a'u bod wedi cynnal arolwg annibynnol gyda'r cleifion, ac roedd y practis hefyd wedi uwchraddio ei wefan y llynedd sy'n cynnig y cyfle i roi adborth parhaus drwy'r opsiwn ffrindiau a theulu.

Hefyd, nid oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion ar waith ar y pryd. Gallai hwn hefyd fod yn faes i'r practis ei werthuso fel ffynhonnell ychwanegol ar gyfer derbyn adborth am y gwasanaethau a ddarperir a chynnig cyfle i'r practis hysbysu'r cyhoedd am yr hyn yr oedd yn ei wneud i roi sylw i unrhyw bryderon / adborth.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu sut y mae'n gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir a sut y gellir rhoi adborth i gleifion y practis.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuom dystiolaeth yn gyffredinol i gefnogi'r casgliad bod tîm y practis yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'w cleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod y tîm staff yn darparu gofal da, diogel ac effeithiol i gleifion mewn ffordd amserol a chynhwysol. Roedd systemau da ar waith a oedd yn galluogi cyfathrebiad ymhlith y staff, gan sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu'n gyflym â'r staff hynny sydd angen y wybodaeth honno.

Cynhelir cyfarfodydd practis rheolaidd fel y gellir trafod unrhyw broblemau a chynnal gwerthusiadau o ddarpariaeth y gwasanaeth.

Gofal diogel

Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal.

Aethpwyd ar daith o gwmpas yr adeilad a chanfuwyd ei fod yn lân, yn dwt ac yn daclus ar y cyfan. Roedd yr adeilad wedi ei gynnal i safon dda ar y tu mewn a'r tu allan, ac eithrio'r toiled, y nodwyd bod angen ei ailwampio.

Roedd gan y practis lawlyfr staff ar waith a oedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y practis a oedd yn effeithio ar gleifion / staff.

Bu dau achos o lifogydd yn y practis yn y gorffennol ac felly mae gan yr holl feddygon gopi electronig o'r cynllun adfer mewn argyfwng pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r adeilad. Roedd contractau cyflenwyr hefyd yn cael eu cadw gyda'r cynllun adfer mewn argyfwng er mwyn bod yn gyflawn.

Edrychom ar sawl asesiad risg a gwerthusiad a oedd ar waith ac roedd ffolder COSHH gyflawn yn cael ei chynnal a'i diweddarau'n rheolaidd.

Nodwyd nad oedd potiau sbesimenau peryglus wedi eu storio'n ddiogel a'u bod wedi cael eu gadael allan yn ystod yr ymweliad. Roedd toddiannau glanhau peryglus wedi cael eu gadael allan hefyd. Dywedwyd wrth y nyrs practis a rheolwr y practis am beryglon posibl storio'r sylweddau hyn yn amhriodol.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl botiau sbesimenau peryglus a chynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.

Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Roedd yr holl offer a chyfleusterau sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gofal a'r driniaeth ofynnol i gleifion yn bresennol yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd offer diogelwch personol ar gael yn rhwydd drwy'r practis i'r staff ei ddefnyddio.

Gwelsom nad oedd sebon ar gael wrth un sinc golchi dwylo mewn ystafell driniaeth a bod teils wedi syrthio oddi ar y wal y tu ôl i'r sinc. Gallai'r ddau fater hwn achosi perygl rheoli heintiau a thynnwyd sylw'r nyrs practis a rheolwr y practis atynt ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd yr holl staff wedi eu himiwneiddio yn erbyn hepatitis B ac edrychwyd ar y cofnodion.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod peiriannau sebon hylif ar gael wrth bob sinc golchi dwylo a bod unrhyw deils rhydd yn cael eu newid yn brydlon i leihau'r perygl o heintiau.

Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir.

Roedd y broses o reoli meddyginiaeth yn y practis yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod gan y meddygon eu rhestrau cleifion neilltuedig eu hunain ac felly roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion cleifion. Byddai'r meddygon yn llofnodi presgripsiynau ailadroddus ar gyfer eu cleifion eu hunain. Mae hyn yn cymryd llawer o amser i'r meddygon ond mae'n hybu arfer diogel ac effeithiol.

Gall cleifion wneud cais am bresgripsiynau ailadroddus:

- Yn bersonol yn y dderbynfa
- Ar-lein yn Fy Iechyd Ar-lein
- Ffacs
- Ebost
- Gwasanaeth casglu o'r fferyllfa

Nid yw'r practis yn derbyn archebion presgripsiwn ailadroddus dros y ffôn oherwydd y posibilrwydd o gamgymeriadau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r presgripsiynau yn dynodi sawl presgripsiwn ailadroddus y gellir ei dderbyn cyn gorfod cael adolygiad meddyg. Trafodwyd y maes ymarfer hwn fel ffordd o sicrhau cyn lleied â phosibl o ddryswch ac o bosibl lleihau nifer yr ymholiadau a dderbynnir gan y practis.

Mae fferylllydd bwrdd iechyd lleol yn gweithio yn y practis am 5 awr bob pythefnos ac yn cyflawni gweithgareddau penodol i'r swydd i gynorthwyo gyda rheoli meddyginiaeth.

Yn ystod taith o gwmpas y safle, gwelwyd dwy oergell â meddyginiaeth ynddynt. Gwelwyd bod yr allweddi wedi cael eu gadael yn y cloeon. Dylid adolygu hyn fel problem ddiogelwch bosibl.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod oergelloedd y cedwir meddyginiaeth ynddynt yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gadw'r allweddi'n ddiogel.

Safon 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.

Roedd yr holl feddygon wedi derbyn hyfforddiant diogelu lefel 3. Roedd yr holl nyrsys a staff gweinyddol wedi derbyn hyfforddiant lefel 2 a sylfaenol. Roedd prosesau eglur i'w dilyn pe bai staff yn amheus ynghylch unrhyw faterion diogelu.

Mae gan y practis feddyg arweiniol dynodedig sy'n goruchwyllo'r holl faterion diogelu plant ac oedolion. Mae gan y practis system o godio cofnodion fel bod y

tîm clinigol yn ymwybodol o blant sydd mewn perygl a bod y teuluoedd yn cael eu nodi ar gyfer sylw.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng meddygon ac ymwelwyr iechyd bob 6 wythnos a thrafodir unrhyw bryderon / achosion / diwygiadau i'r gofrestr.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Cawsom sgwrs â rheolwr y practis a esboniodd y system sydd ar waith ar gyfer rhannu a dosbarthu digwyddiadau diogelwch cleifion neu ddigwyddiadau arwyddocaol ymhlith y staff.

Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol yn y practis i drafod darpariaeth y gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd digwyddiadau arwyddocaol / digwyddiadau a newidiadau i ganllawiau yn fisol. Bob mis, roedd rheolwr y practis a rheolwr y dderbynfa yn cyfarfod â'r tîm nyrsio / cynorthwywyr gofal iechyd i drafod materion perthnasol.

Roedd cofnodion digwyddiadau arwyddocaol yn dangos bod digwyddiadau wedi cael eu logio a'u cofnodi ar bapur ac yn electronig. Nid oedd y cofnodion digwyddiadau arwyddocaol yn dangos a oedd y digwyddiadau wedi cael eu datrys neu eu cadarnhau. Nodwyd hefyd nad oedd y digwyddiadau wedi'u categorio'n risg isel / canolig / uchel.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob digwyddiad arwyddocaol yn cael ei sgorio yn ôl ei risg a nodi a gafodd ei ddatrys neu ei gadarnhau. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i gofnodi'r digwyddiadau hyn yn electronig.

Cadw cofnodion

Safon 3.5: Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.

Edrychwyd ar samplau o gofnodion tri o gleifion ar gyfer pob un o'r meddygon yn ystod yr arolygiad. Roedd y cofnodion a welwyd yn cynnwys e-geisiadau ac apwyntiadau yr un diwrnod, a drefnwyd ymlaen llaw ac ymweliadau cartref. Roedd yr holl gofnodion a welwyd yn cynnwys diagnosis, hanes, cynllun triniaeth a cheisiadau am brofion. Roedd y cofnodion a welwyd o safon gyson dda ac yn hawdd eu dilyn. Roedd unrhyw feddyginiaeth a derfynwyd wedi ei chofnodi ynghyd â'r rhesymau am ei therfynu. Roedd gan y practis weithdrefnau 'codio darllen'³ cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfeirnoddi'n gywir.

³ **Codau darllen** yw'r system terminoleg glinigol safonol a ddefnyddir ym maes Ymarfer Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cefnogi amgodio clinigol manwl o wybodaeth cleifion gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion clinigol, symptomau ac ati

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda iawn yn gyffredinol. Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis a'r tîm o feddygon. Roedd rheolwr y practis a'r meddygon oll yn gweithio'n dda fel tîm ac yn hybu safonau uchel o ymarfer i'r holl staff.

Roedd rheolwr y practis a'r meddygon yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu'r staff a chanfuom fod pwyslais ar ddysgu a datblygu trwy gyfleoedd hyfforddi ffurfiol. Roedd y practis yn awyddus i ddarparu hyfforddiant i feddygon iau yn rhan o'u hyfforddiant a'u datblygiad ac yn rhagweithiol o ran hybu swyddogaeth y meddyg teulu. Roedd dirprwyaeth dda o dasgau, wrth i'r holl feddygon a nyrsys a nodwyd fel arweinwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros feysydd pwysig fel diogelu, rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, rhybuddion meddygol a llywodraethu clinigol i enwi dim ond rhai.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Mae'r holl feddygon ac aelod o'r tîm nyrsio yn cyfarfod yn wythnosol i drafod achosion clinigol neu unrhyw bryderon neu broblemau. Cymerir cofnodion yn y cyfarfodydd hyn. Mae aelod y tîm nyrsio yn bwydo'r holl wybodaeth berthnasol yn ôl i'r tîm nyrsio yn ystod eu cyfarfodydd wythnosol. Ar gyfer diweddariadau clinigol perthnasol, nodwyd y byddai'r holl nyrsys a oedd ar gael yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn gyda'r meddygon.

Mae'r practis hefyd yn rhagweithiol o ran mynychu cyfarfodydd clwstwr rheolaidd. Gwelsom enghreifftiau o gofnodion o wahanol gyfarfodydd a oedd yn dangos bod trafodaethau effeithiol ac agored yn cael eu cynnal a bod diwylliant o fod yn agored a thryloywder yn cael ei annog ymhlith y staff.

Mae'r practis yn hyrwyddo archwilio fel ffordd o wella arferion gwerthuso safonau. Cynhaliwyd amrywiaeth o wahanol archwiliadau fel:

- Rheoli heintiau
- Iselder

- Mynediad
- Gwrthfotigau
- Atchwanegiadau bwyd
- Diffyg maethiad oedolion
- Salmeterol (meddyginiaeth asthma)

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.

Roedd gan yr holl staff yn y practis contract cyflogaeth. Roedd y ffeiliau staff yn cynnwys gwybodaeth recriwtio bwysig fel ceisiadau, tystlythyrau a disgrifiadau swydd. Gwelwyd rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer staff newydd a oedd yn drefnus ac yn benodol i'w swyddi. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod archwiliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei gynnal ar yr holl staff clinigol newydd a gyflogir yn y practis.

Anogir yr holl staff i gynnal a diweddarau eu sgiliau drwy'r cysyniad amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu. Mae'r practis yn hybu defnydd dysgu ar-lein. Roedd hefyd yn galonogol gweld bod y practis yn cefnogi un o'i nyrsys i gyflawni cwrs rhagnodwr anfeddygol i wella datblygiad proffesiynol y nyrs ymhellach a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r feddygfa deulu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gadwyd gan AGIC hyd yn hyn
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau gyda staff gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith o ran llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn meddygfeydd teulu.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r practis a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith a nodir y canfyddiadau hyn (lle maent yn berthnasol) yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt

Dyddiad yr Arolygiad: 06/02/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
10	Dylai'r practis sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn yr un lefel o sylw â'r Saesneg.	6.2	Rydym wedi gwneud cais i wasanaeth cyfieithu gyfieithu ein taflenni allweddol. Rydym yn defnyddio posterï dwyieithog pan fyddant yn cael eu darparu	Gill Hodgetts	4 mis
11	Dylai'r practis adolygu sut y mae'n gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir a sut y gellir rhoi adborth i gleifion y practis.	6.3	Rydym yn defnyddio twitter a facebook. Rydym wedi defnyddio newyddlen bapur yn y gorffennol pan fu angen rhaedru gwybodaeth a bydd hyn yn parhau. Mae'r practis yn derbyn adborth yn rheolaidd, naill drwy'r broses bryderon neu ffrindiau	Jane Stephens/Dr Walters	Ar waith nawr, cyfarfod adolygu ar ddiwedd pob blwyddyn

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			a theulu, a thrafodir y rhain mewn cyfarfod adolygu blynyddol gyda'r meddygon teulu ac, yn dilyn ein hadolygiad, byddwn yn darparu bwletin blynyddol yn y dyfodol yn dangos y themâu a'r camau yr ydym wedi eu cymryd hyd yn hyn yn ogystal â'r rhai sydd y tu allan i'n rheolaeth. Bydd hyn yn cael ei raeadru fel yr uchod.		galendr fel y bydd hyn yn digwydd erbyn Ionawr 2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
13	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl botiau sbesimenau peryglus a chynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.	2.1	Mae'r nyrsys wedi symud y potiau i fan storio mwy diogel – mae trafodaeth ffurfiol i gytuno ar drefniadau gweithio ar gyfer hyn a rhif 15 isod yn cael ei threfnu	Y meddygon/ y tîm Nyrsio	6 mis
13	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod peiriannau sebon hylif ar gael wrth bob sinc golchi dwylo a bod unrhyw deils rhydd yn cael eu newid yn brydlon i leihau'r perygl o heintiau.	2.4	Ychwanegwyd y sebon. Mae adeiladwr wedi bod i mewn ac wedi ychwanegu hyn at ei amserlen waith	Jane Stephens	2 fis

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
14	Dylai'r practis sicrhau bod oergelloedd y cedwir meddyginiaeth ynddynt yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gadw'r allweddi'n ddiogel.	2.6	Fel pwynt 14 uchod	Meddygon/ Nyrsys	6 mis
15	Dylai'r practis sicrhau bod pob digwyddiad arwyddocaol yn cael ei sgorio yn ôl ei risg a nodi pa un a gafodd ei ddatrys neu ei gadarnhau. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i gofnodi'r digwyddiadau hyn yn electronig.	3.1	Bydd yn cael ei wneud yn rhan o'r adolygiad o ddigwyddiadau arwyddocaol. Uwchraddiwyd y ffeil â llaw yn dilyn yr arolygiad a bydd digwyddiadau'n cael eu graddio wrth i ni fynd yn ein blaenau ac unrhyw themâu yn cael eu trafod.	Jane Stephens	Ar waith
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras):DR R B WALTERS.....

Teitl:DR WALTERS

Dyddiad:9 MAWRTH 2017

Atodiad B

Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned

Adroddiad gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys



Cyd-arolygiad o Feddygfa Deulu gan AGIC – CIC (Adroddiad y CIC)

Crynodeb o'r Ymweliad

Practis: Practis Meddygol Llanfair-ym-Muallt, Parc Glandwr

Dyddiad / Amser: Dydd Llun 6 Chwefror 2017 / 10.30am

Tîm CIC: CIC Powys

David Collington – Aelod (Arweinydd)

Frances Hunt – Aelod

Diben yr Ymweliad:

Cynnig sylwadau o safbwynt cleifion i Dîm Arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Adborth Cleifion

Siaradodd aelodau'r CIC a/neu cynhaliwyd arolwg cleifion gydag 11 o gleifion yn ystod yr ymweliad (roedd dau eisoes wedi cwblhau'r arolwg cyn yr ymweliad).

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder ynghylch yr amser yr oedd yn ei gymryd i gael apwyntiad gyda meddyg teulu penodol / a enwyd.

Sylwadau Pellach o'r Arolygon a'r Trafodaethau

Materion o Bryder:

- Roedd rhai cleifion yn ei chael yn anodd trefnu apwyntiadau yn y practis.
- Roedd awgrym y neges ffôn i ddefnyddio eConsult yn peri rhwystredigaeth i'r rhai heb fynediad at y rhyngwyd.
- Adroddwyd materion tebyg i'r uchod wrth ffonio i gael canlyniadau profion.
- Mynegodd rhai cleifion bryder y gallai meddygfa ategol Llanwrtyd gau.

Materion i'w Cymeradwyo:

- Roedd y staff yn ymatebol, yn foesgar ac yn gyfeillgar.

- Teimlwyd bod mynediad at apwyntiadau brys yn dda.
- Roedd Hysbysiad yn y dderbynfa am y ffaith bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael i gymunedau ethnig lleol.

Arsylwadau

Yr Amgylchedd - Allanol

- Adroddwyd ei bod yn anodd i'r rhai sy'n oedrannus neu'n fusgrell agos y drysau allanol. Ceir mynediad i bobl mewn cadair olwyn trwy wthio botwm ac aros am aelod o staff.

- Roedd mynediad da at y feddygfa a digonedd o leoedd parcio ar gael i gleifion, gyda lleoedd parcio'r staff yng nghefn yr adeilad.

- Roedd tri lle parcio i bobl anabl ar gael yn agos at fynedfa'r feddygfa

Yr Amgylchedd - Mewnol

- Er bod digonedd o seddi, roedd diffyg gwahanol fathau o seddi.

- Roedd angen cyffredinol i addurno'r dderbynfa ac, yn benodol, ailwampio toiledau'r cleifion ar ben pellaf yr ystafell aros o'r dderbynfa.

- Roedd rhywfaint o bryder am gyfrinachedd cleifion, gan nad oedd yn ymddangos bod unrhyw ystafelloedd preifat ar gael yn rhwydd.

- Roedd angen glanhau neu newid rhai carpedi, yn enwedig o gwmpas yr ystafelloedd triniaeth.

- Nododd aelodau'r CIC iddi ymddangos bod lefel y tymheredd yn yr adeilad wedi gostwng tua amser cinio (a yw hyn oherwydd gwresogyddion storio?).

Cyfathrebu a Gwybodaeth a Arddangoswyd

- Roedd yn ymddangos bod diffyg cefnogaeth i'r Gymraeg.

- Nodwyd bod angen i gleifion ofyn am ddeunyddiau print mawr.

- Nid oedd y staff yn eglur ynghylch gweithrediad a defnydd y Ddolen Sain.

- Gellid gweld hysbysiadau hebryngwyr yn amlwg.

- Roedd hysbysiadau am gyfrinachedd ac argaeledd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi eu harddangos yn eglur hefyd.

- Mae'r Practis yn cofnodi pa gleifion sydd â phroblemau cyfathrebu a hygrychedd.

- Nododd aelodau'r CIC fod angen disodli taflenni "Gweithio i Wella" gyda thafleuni sy'n cyfeirio at CIC Powys nid CIC Brycheiniog a Maesyfed.

Paratowyd yr adroddiad gan

David Collington

Aelod o'r CIC